# BWLETIN YSGOL MISOL – IONAWR 2023

SSCE CYMRU — SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES — CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol



*“Blwyddyn Newydd Dda! Mae SSCE Cymru wrthi'n mynd drwy broses casglu data ac anfonwyd e-byst at ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol yn gofyn am niferoedd wedi'u diweddaru ar blant y Lluoedd arfog. Os ydych chi wedi derbyn un o'r e-byst hyn, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech roi gwybod eich rhifau i ni fel bod ein data'n gyfredol. Eleni rydym yn gyffrous i gefnogi ysgolion i weithio tuag at eu statws efydd Ysgolion sy'n cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru i ddatblygu a gwella eu cefnogaeth i blant Milwyr ymhellach ac ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at rannu syniadau gyda chi cyn bo hir am ddathlu Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch unrhyw un o'r ymholiadau uchod neu gyffredinol.”*

**Emilee,** Emilee.Kinsey@newport.gov.uk

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Blwyddyn Newydd Dda! Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd a symud ymlaen i dymor y Gwanwyn mae'n caniatáu inni ailffocysu ac ystyried dechrau prosiectau newydd, pethau i ddatblygu dros weddill y flwyddyn academaidd. Fe wnes i fwynhau ymgysylltu ag ambell ysgol yng Nghymru diwedd y flwyddyn llynedd, sydd eisoes yn cymryd rhan yn y cyrsiau Cynradd ac Uwchradd, a ddyluniwyd gan Little Troopers. Dwi'n edrych ymlaen at glywed sut maen nhw'n dod ymlaen dros yr wythnosau nesaf a beth maen nhw wedi ei ddarganfod am eu plant Milwyr a'u profiadau unigryw. Os hoffai eich ysgol fanteisio ar y cyfle i gynnal y cwrs hwn a dangos sut rydych chi'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog sy'n mynychu eich ysgol, yna cysylltwch â ni.”*

**Jo,** Joanna.wolfe@wlga.gov.uk

## DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

**Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.**

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CYLLID

**SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion**
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

**Cyngor:** Siaradwch â’ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth yma**

## HYFFORDDIANT

**Sesiynau DPP SSCE Cymru**

Dyddiadau ar gael ym mis Ionawr.

**Gweler dyddiadau ac archebwch**

## ADNODDAU

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Briff Awdurdodau Lleol a Ysgolion.**

**Ar gael yma**

